

Stopio Cosbi Corfforol yng Nghymru

Gwybodaeth i Wasanaeth Erlyn y Goron



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae **21 Mawrth 2022** yn foment hanesyddol i blant a'u hawliau yng Nghymru. O'r diwrnod hwn ymlaen, bydd cosbi plant yn gorfforol yn **anghyfreithlon** yng Nghymru.

Mae'r newid hwn yn digwydd yn sgil Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 (y Ddeddf).

Yn eich rôl gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron, dyma beth sydd angen i chi ei wybod am y newid yn y gyfraith.

Pam mae'r newid yn y gyfraith yn bwysig?

Amcan cyffredinol y Ddeddf yw diogelu hawliau plant drwy wahardd cosbi plant yn gorfforol gan rieni a'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis. Bydd hyn yn golygu y bydd gan blant yr un amddiffyniad rhag ymosodiad ag oedolion, ac yn gwneud y gyfraith yn gliriach fel ei bod yn haws i blant, rhieni, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd ei deall.

Bwriedir i'r Ddeddf, ar y cyd ag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i rieni, arwain at ostyngiad pellach yn y defnydd o gosb gorfforol ar blant yng Nghymru a goddefgarwch ohono.

Mae hyn yn bwysig oherwydd bod ymchwil yn awgrymu y gallai unrhyw fath o gosb gorfforol fod yn niweidiol i blant.



Beth sy'n newid?

Daw adran 1 o'r Ddeddf i rym ar 21 Mawrth 2022. Bydd yn diddymu'r amddiffyniad cosb resymol mewn cyfraith gyffredin fel na ellir ei ddefnyddio yng Nghymru mwyach pan fo plentyn wedi'i gosbi'n gorfforol. Y diffiniad o gosb gorfforol yn y Ddeddf yw unrhyw guro a wneir fel cosb i blentyn.

Cyn 21 Mawrth 2022, gallai rhieni neu'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis ddefnyddio'r amddiffyniad o gosb resymol mewn perthynas â'r gyfraith droseddol a'r gyfraith sifil.

O dan y gyfraith droseddol, mae'n gymwys mewn perthynas â throseddau cyfraith gyffredin o ymosod a churo, ac o dan gyfraith sifil mae'n gymwys mewn perthynas â'r camwedd o dresmasu yn erbyn y person.

Mae defnydd yr amddiffyniad hwn eisoes wedi'i gyfyngu yn y ffyrdd canlynol:

- Ni ellir ei ddefnyddio mewn perthynas â chyhuddiadau o dan y gyfraith droseddol o glwyfo neu achosi niwed corfforol difrifol, neu ymosod gan achosi niwed corfforol gwirioneddol i blentyn; neu'r drosedd benodol o greulondeb i bersonau o dan 16 oed;
- Ni ellir ei ddefnyddio mewn perthynas â chyhuddiadau o dan y gyfraith sifil o guro plentyn gan achosi niwed corfforol gwirioneddol;
- Ni all y rhai sy'n gweithredu in loco parentis ei ddefnyddio mewn rhai lleoliadau a reoleiddir fel ysgolion a lleoliadau gofal plant.

Bydd dileu'r amddiffyniad yn golygu na fydd unrhyw un yng Nghymru yn gallu defnyddio'r amddiffyniad o gosb resymol fel amddiffyniad i ymosodiad cyffredin ar blentyn.

Dyma'r tro cyntaf i'r gyfraith droseddol graidd amrywio rhwng Cymru a Lloegr.

Stopio Cosbi
Corfforol

Ending Physical
Punishment



A fydd y newid yn y gyfraith yn berthnasol i bawb yng Nghymru?

Bydd, bydd yn berthnasol i bawb – rhieni neu unrhyw un sy'n gyfrifol am blentyn tra bo'r rhieni'n absennol (in loco parentis). Ar ôl i'r gyfraith newid, bydd cosbi plentyn yn gorfforol yn torri'r gyfraith a gellid cyhuddo cyflawnwyr o ymosodiad cyffredin, a/neu droseddau eraill gan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos.

Ac fel gyda chyfreithiau eraill, bydd yn berthnasol i ymwelwyr â Chymru hefyd.

Beth y mae hyn yn ei olygu i Wasanaeth Erlyn y Goron?

Bydd y newid yn y gyfraith yn golygu na all yr Heddlu na Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru ystyried yr amddiffyniad o gosb resymol mewn unrhyw ymchwiliad sy'n ymwneud â throseddau cyfraith gyffredin o ymosod a churo neu ymosodiad cyffredin a gyflawnir yn erbyn plentyn.

Cyn i'r gyfraith newid ar 21 Mawrth 2022, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y pedwar heddlu yng Nghymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, i sicrhau y bydd y gyfraith newydd yn cael ei gweithredu yn y ffordd orau bosibl.

Mae hyn yn cynnwys datblygu dewis adsefydlu yn lle erlyn. Mewn achosion lle mae'r heddlu'n penderfynu ei bod yn briodol cynnig datrysiaid y tu allan i'r llys, bydd opsiwn o gymorth rhianta wedi'i deilwra i annog technegau rhianta cadarnhaol a helpu i osgoi aildroseddu. Bydd y cymorth ychwanegol hwn yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol.

Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ystyried unrhyw newidiadau gofynnol i ganllawiau proffesiynol fel y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron a'r canllawiau troseddau yn erbyn y person, sy'n cynnwys y Safon Gyhuddo, yn ogystal â hyfforddiant i adlewyrchu'r newid yn y gyfraith.

Mae'n bwysig eich bod yn gyfarwydd â'r newid yn y gyfraith yng Nghymru a'r hyn y mae'n ei olygu i chi fel gweithwyr proffesiynol.



Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Gellir dod o hyd i wybodaeth gyffredinol am stopio cosb gorfforol yn:
llyw.cymru/stopiocosbicorfforol

Grwpiau gorchwyl a gorffen ar weithredu:
<https://llyw.cymru/grwpiau-gweithredu-deddf-plant-diddymu-amddiffyniad-cosb-resymolcymru-2020>

Deddf Plant (*Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol*) (Cymru) 2020 (gan gynnwys y nodiadau esboniadol):
<https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2020/3/contents/enacted/welsh>

Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder ar gyfer gweithredu'r Ddeddf:
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/asesiad-o-r-effaith-ar-gyfiawnder-atodiad-d_0.pdf

Gweithdrefnau Diogelu Cymru:
diogelu.cymru

Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron:
cps.gov.uk/publication/code-crown-prosecutors

Troseddau yn erbyn y person, sy'n cynnwys y Safon Gyhuddo:
cps.gov.uk/legal-guidance/offences-against-person-incorporating-charging-standard

**Mae'r oes wedi newid. Mae agweddau wedi newid.
Does dim lle i gosbi corfforol mewn Cymru fodern.**